HYSBYSIAD PWYSIG
I BRESWYLWYR A MANWERTHWYR

Digwyddiadau'r Haf/Hydref Cyngor Caerffili 2025

PARTI TRAETH RHISGA
Dydd Sadwrn 7 Mehefin a Dydd Sul 8 Mehefin

LLEOLIAD: Parc Tredegar, Tredegar Street, Rhisga.

ORIAU AGOR: 10.00am - 4.00pm

CAU FFYRDD, CAU MEYSYDD PARCIO A SYSTEMAU TRAFFIG: Bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal ym Mharc Tredegar ac, felly, nid oes angen cau ffyrdd. Ni fydd unrhyw effaith ar y systemau traffig yng nghanol y dref tra bod y digwyddiad yn cael ei gynnal.

MYNEDIAD I BRESWYLWYR A MANWERTHWYR: Mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal ym Mharc Tredegar ac nid oes unrhyw effaith ar fynediad preswylwyr na manwerthwyr i'w heiddo.

TACSIS: Nid yw'r digwyddiad yn effeithio ar dacsis.

LLWYBRAU A SAFLEOEDD BYSIAU: Nid yw'r digwyddiad yn effeithio ar safleoedd bysiau.

PARTI TRAETH COED DUON
Dydd Sadwrn 28 Gorffennaf

LLEOLIAD: Y Stryd Fawr, Coed Duon.

ORIAU AGOR: 9.00am - 5.00pm

CAU FFYRDD, CAU MEYSYDD PARCIO A SYSTEMAU TRAFFIG: Cau'r Stryd Fawr o'r gyffordd â Bridge Street a Pentwyn Road o 9.00pm ar 27.06.25 tan 9.00pm ar 28.06.25. Bydd Bridge Street a Pentwyn Road yn aros ar agor. Ni fydd modd i'r cyhoedd barcio ym maes parcio Wesley yn ystod y digwyddiad o 9.00pm ar 27.06.25 tan 9.00pm ar 28.06.25. Bydd cerbydau diogelwch addas yn cael eu gosod ar bwys pob mynedfa cerbydau i safle'r digwyddiad. Mae'r systemau lleihau cerbydau hyn yn creu amgylchedd diogel i'r digwyddiad gael ei gynnal ac mae'n rhan o gynllun gwrthderfysgaeth y digwyddiad.

MYNEDIAD I FANWERTHWYR: Yn achos manwerthwyr yn y rhan o'r Stryd Fawr, Coed Duon, sydd heb fynediad i'r lôn gefn, dylen nhw drefnu derbyn nwyddau sydd eu hangen yn ystod penwythnos y digwyddiad cyn 9.00pm ar 27.06.25 neu rhwng 3.00am a 7.00am ar 28.06.25.

MYNEDIAD I BRESWYLWYR: Bydd preswylwyr yn Wesley Road wedi cael tocynnau yn 2025 i gael mynediad i'w heiddo nhw ar hyd Cefn Road rhwng 9.00pm ar 27.06.25 a 9.00pm ar 28.06.25. Dylid cadw'r tocynnau sy'n cael eu rhoi ar gyfer pob digwyddiad yn y dyfodol sy'n cael ei gynnal yng nghanol tref Coed Duon – Gallwch chi eu hailddefnyddio nhw. Dyma'r unig lwybr mynediad i'ch eiddo chi tra bydd y ffyrdd ar gau a rhaid i docynnau fod yn weladwy wrth fynd i mewn. Tra bydd y ffyrdd ar gau, bydd y rhwystr wedi ei ddatgloi a bydd stiward yno yn ystod oriau agor y digwyddiad. Bydd staff diogelwch yn monitro'r rhwystr yn rhannol dros nos. Os nad oes stiward yno pan fyddwch chi'n cyrraedd/gadael y safle, sicrhewch fod y rhwystr ar gau wedi hynny. Os ydych chi wedi colli eich tocyn(nau), cysylltwch â digwyddiadau@caerffili.gov.uk/07876 358074 a nodwch eich enw, eich cyfeiriad, a bod angen tocyn newydd arnoch chi.

TACSIS: Ni fydd tacsis yn cael mynd ar hyd y ffyrdd sydd wedi'u cau. Byddwch cystal â threfnu safleoedd casglu a gollwng amgen.

LLWYBRAU A SAFLEOEDD BYSIAU: Nid yw cau'r ffyrdd hyn yn effeithio ar safleoedd bysiau. Bydd llwybrau amgen ar waith o gwmpas Gordon Road, Albany Road, Attlee Road, Bloomfield Road, Pentwyn Road a Pentwyn Avenue.

GŴYL GERDDORIAETH YR HAF, BARGOD
Dydd Sadwrn 12 Gorffennaf

LLEOLIAD: Lowry Plaza, Hanbury Square, Hanbury Road, Y Stryd Fawr a'r Stryd Fawr Uchaf.

ORIAU AGOR: 10.00am - 7.00pm

CAU FFYRDD, CAU MEYSYDD PARCIO A SYSTEMAU TRAFFIG: Bydd Hanbury Square, Hanbury Road, Y Stryd Fawr a'r Stryd Fawr Uchaf ar gau yn llwyr o 9.00pm ar 11.07.25 tan 11.00pm ar 12.07.25. Bydd maes parcio'r Emporium yn cau am 9.00pm ar 11.07.25 tan 11.00pm ar 12.07.25. Rhaid symud pob cerbyd o'r maes parcio cyn iddo gau. Bydd cerbydau diogelwch addas yn cael eu gosod ar bwys pob mynedfa cerbydau i safle'r digwyddiad. Mae'r systemau lleihau cerbydau hyn yn creu amgylchedd diogel i'r digwyddiad gael ei gynnal ac mae'n rhan o gynllun gwrthderfysgaeth y digwyddiad.

MYNEDIAD I FANWERTHWYR: Byddwch cystal â threfnu derbyn nwyddau cyn 9.00pm ar 11.07.25 ac ar ôl 11.00pm ar 12.07.25 neu rhwng 3.00am-7.00am. Ni fydd mynediad ar gael i gerbydau nwyddau trwm yng nghanol y dref tra bydd y ffyrdd ar gau.

MYNEDIAD I BRESWYLWYR: Ni fydd neb yn cael parcio ar Hanbury Square, Hanbury Road, Y Stryd Fawr na'r Stryd Fawr Uchaf o 9.00pm ar 11.07.25 tan 11.00pm ar 12.07.25. Rhaid gwneud trefniadau parcio amgen. Bydd llwybr gwyro ar waith o amgylch canol y dref tra bydd y ffyrdd ar gau. Bydd angen i breswylwyr West Street, Cross Street a Capel Street ddefnyddio llwybrau amgen. Ni chaniateir mynediad i Hanbury Road o 9.00pm ar 11.07.25 tan ar ôl 11.00pm ar 12.07.25.

TACSIS: Ni fydd tacsis yn cael mynd ar hyd y ffyrdd sydd wedi'u cau. Byddwch cystal â threfnu safleoedd casglu a gollwng amgen.

LLWYBRAU A SAFLEOEDD BYSIAU: Bydd pob bws yn gweithredu yn uniongyrchol i/o Gyfnewidfa Bargod, ac ni fyddan nhw'n gwasanaethu Hanbury Square na Royal Square. Bydd bysiau ar lwybrau C18 ac X38 yn gweithredu ar hyd Wood Street, Ruth Street a Henry Street, ac ni fyddan nhw'n gwasanaethu Hanbury Square, Royal Square na The Plasnewydd.

GŴYL GAWS CAERFFILI
Dydd Sadwrn 30 Awst a dydd Sul 31 Awst

LLEOLIAD: Cardiff Road, Y Twyn, Castle Street (ffordd gerbydau tua'r gogledd yn unig), Parc Dafydd Williams, y tu ôl i Gastell Caerffili (man glaswelltog ar ochr y castell Crescent Road), Canolfan Siopa Cwrt y Castell a Maes Parcio'r Twyn.

ORIAU AGOR: 10.00am-7.00pm ddydd Sadwrn 30 Awst a 10.00am-5.00pm ddydd Sul 31 Awst.

CAU FFYRDD, CAU MEYSYDD PARCIO A SYSTEMAU TRAFFIG: Bydd Cardiff Road, Twyn Road a Castle Street (tua'r gogledd yn unig), Maes Parcio'r Twyn ar gau rhwng 9pm ar 29.08.25 a 9pm ar 31.08.25. Tra bydd y ffyrdd ar gau, ni fydd y system unffordd yn St Fagans Street ar waith rhwng y cyffyrdd â Bradford Street a Cardiff Road. Bydd rhaid i gerbydau droi i'r chwith wrth yrru o St Fagans Street i Bradford Street. Bydd mesurau lleihau cerbydau yn cael eu gosod ger Canolfan Ddysgu yr Hwb yn Pentrebane Street er mwyn cynnwys y busnesau sydd wedi'u lleoli ar y stryd hon yn safle'r digwyddiad. Bydd y mesurau lleihau cerbydau ar St Fagans Street yn cael eu gosod y tu hwnt i Peacocks/The Deli er mwyn cynnwys y busnesau hyn yn safle'r digwyddiad. Bydd nifer o gonau 'dim aros' yn cael eu gosod ychydig y tu hwnt i Peacocks/The Deli ger eiddo preswyl i greu cylch troi ar gyfer unrhyw gerbydau sy'n gyrru ar St Fagans Street o'r gyffordd â Bradford Street. Bydd maes parcio'r Twyn yn cau am 6pm ar 29.08.25 er mwyn gosod y digwyddiad, tan 10.30pm ar 31.08.25.

Bydd cerbydau diogelwch addas yn cael eu gosod ar bwys pob mynedfa cerbydau i safle'r digwyddiad. Mae'r systemau lleihau cerbydau hyn yn creu amgylchedd diogel i'r digwyddiad gael ei gynnal ac mae'n rhan o gynllun gwrthderfysgaeth y digwyddiad.

PRESWYLWYR HILLSIDE: Bydd Ysgol Gyfun Martin Sant yn cael ei defnyddio fel safle parcio a cherdded yn ystod y digwyddiad. Mae system unffordd ar waith a bydd yr holl gerbydau yn mynd i mewn trwy Rectory Close ac yn gadael trwy Hillside. Rydyn ni'n cynghori bod pob cerbyd ar Hillside yn cael ei symud i dramwyfeydd am y penwythnos, lle bo hynny'n bosibl, er mwyn caniatáu llwybr clir i gerbydau a cherddwyr sy'n gadael yr ysgol trwy gydol y dydd. Fel arall, rydyn ni'n argymell eich bod chi'n parcio yn Ysgol Gyfun Martin Sant am y diwrnod o 10am tan 7pm ddydd Sadwrn ac o 10am tan 5pm ddydd Sul. Bydd conau 'dim aros' yn cael eu gosod ar ochr dde'r stryd wrth i chi ddod i mewn iddi o Mountain Road yn arwain tuag at yr ysgol, er mwyn sicrhau bod mynediad yn cael ei gynnal i gerddwyr a cherbydau brys yn ystod y digwyddiad. Bydd hyn yn orfodol yn ystod oriau agor y digwyddiad. Dylai unrhyw drigolion sy'n gweld cerbydau sy'n parcio ar draws eu tramwyfa yn ystod y digwyddiad gan achosi rhwystr i'ch eiddo gysylltu â'r heddlu drwy ffonio 101.

MYNEDIAD I FANWERTHWYR: Yn achos manwerthwyr yn y rhan o Cardiff Road a fydd ar gau, sydd heb fynediad i'r lôn gefn, dylen nhw drefnu derbyn nwyddau sydd eu hangen ar gyfer penwythnos y digwyddiad cyn 9pm ar 29.08.25 neu rhwng 3.00am a 7am ar 29.08.25 a 31.08.25. Yn achos manwerthwyr yn St Fagans Street sydd â lle parcio/garej y tu cefn i'w heiddo yn Park Lane, byddan nhw'n cael tocyn er mwyn cael mynediad yn ystod y digwyddiad. Bydd modd parcio yn Ysgol y Twyn yn ystod oriau agor y digwyddiad ar bob diwrnod, os oes angen ac os oes ganddyn nhw docyn mynediad. Mae manwerthwyr a staff y Llyfrgell sy'n cael mynediad i'r maes parcio y tu ôl i Gymdeithas Adeiladu'r Principality a Llyfrgell Caerffili wedi cael tocynnau i gael mynediad i'w maes parcio. Dylid cadw'r tocynnau sy'n cael eu rhoi ar gyfer pob digwyddiad yn y dyfodol sy'n cael ei gynnal yng nghanol tref Caerffili – Gallwch chi eu hailddefnyddio nhw. Os ydych chi wedi colli eich tocyn(nau), cysylltwch â digwyddiadau@caerffili.gov.uk/07876 358074 a nodwch eich enw, eich cyfeiriad, a bod angen tocyn newydd arnoch chi.

MAES PARCIO GWASANAETH DOSBARTHU ICELAND, NICOLA DOWNIE FLORIST A SPORTS DIRECT: Ni fydd y cyhoedd yn cael mynd i'r maes parcio. Yn ystod y digwyddiad, bydd stiward yn cadw golwg ar y bolardiau gollwng cloadwy rhwng Windsor Street a maes parcio Sports Direct/Nicola Downie Florist/Iceland. Bydd angen i dacsis gasglu eu teithwyr o ddiwedd Lôn Drefol Gogledd Windsor Street. Gall deiliaid allweddi, rheolwyr a gweithwyr sifftiau cynnar Iceland, Nicola Downie Florist a Sports Direct gael mynediad i'r maes parcio o Cardiff Road rhwng 3am a 7am ar 29.08.25 a 31.08.25. Ar ôl yr amseroedd hyn, bydd cerbydau'n cael gadael maes parcio'r siop ar hyd Lôn Drefol Gogledd Windsor Street yn unig. Dylai pob aelod arall o'r staff barcio mewn meysydd parcio eraill yn yr ardal neu ddefnyddio'r lleoedd a fydd ar gael yn Ysgol y Twyn. Mae tocynnau wedi'u rhoi i Sports Direct, Nicola Downie Florist ac Iceland i gael mynediad i'r ysgol hon yn ystod digwyddiadau. Dylid cadw'r tocynnau sy'n cael eu rhoi ar gyfer pob digwyddiad yn y dyfodol sy'n cael ei gynnal yng nghanol tref Caerffili – Gallwch chi eu hailddefnyddio nhw. Os ydych wedi colli eich tocyn(nau), cysylltwch â digwyddiadau@caerffili.gov.uk /07876 358074 nodwch eich enw, eich cyfeiriad, a bod angen tocyn newydd arnoch chi.

MYNEDIAD I BRESWYLWYR: Er mwyn hwyluso taith ddiogel i gerbydau dosbarthu nwyddau Iceland, Nicola Downie Florist a Sports Direct ar hyd Lôn Drefol Gogledd Windsor Street, bydd gofyn i breswylwyr gadw'r lôn hon yn rhydd o gerbydau yn ystod cyfnod y digwyddiad. Bydd aros a llwytho yn y lôn hon yn cael eu gwahardd rhwng 5pm ar 29.08.25 a 9pm ar 31.08.25. Yn achos preswylwyr yn St Fagans Street sydd â lle parcio/garej y tu cefn i'w heiddo yn Park Lane, maen nhw wedi cael tocynnau er mwyn cael mynediad yn ystod y digwyddiad. Dylid cadw'r tocynnau sy'n cael eu rhoi ar gyfer pob digwyddiad yn y dyfodol sy'n cael ei gynnal yng nghanol tref Caerffili – Gallwch chi eu hailddefnyddio nhw. Os ydych wedi colli eich tocyn(nau), cysylltwch â digwyddiadau@caerffili.gov.uk/07876 358074 nodwch eich enw, eich cyfeiriad, a bod angen tocyn newydd arnoch chi. Bydd modd parcio yn Ysgol y Twyn yn ystod oriau agor y digwyddiad ar bob diwrnod, os oes angen.

TACSIS: Ni fydd tacsis yn cael mynd ar hyd y ffyrdd sydd wedi'u cau.

LLWYBRAU A SAFLEOEDD BYSIAU: Bydd y safleoedd bysiau, a fydd wedi eu heffeithio tra bydd y ffyrdd ar gau, yn cael eu symud i'r brif gyfnewidfa a bydd llwybr bysiau dros dro ar waith ar hyd Clive Street, Ludlow Street a Crescent Road.

GŴYL BWYD RHISGA
Dydd Sadwrn 20 Medi

LLEOLIAD: Parc Tredegar, Tredegar Street, Rhisga.

ORIAU AGOR: 10.00am - 4.00pm

CAU FFYRDD, CAU MEYSYDD PARCIO A SYSTEMAU TRAFFIG: Bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal ym Mharc Tredegar ac, felly, nid oes angen cau ffyrdd. Nid fydd unrhyw effaith ar y systemau traffig yng nghanol y dref tra bod y digwyddiad yn cael ei gynnal.

MYNEDIAD I BRESWYLWYR A MANWERTHWYR: Mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal ym Mharc Tredegar ac nid oes unrhyw effaith ar fynediad preswylwyr na manwerthwyr i'w heiddo.

TACSIS: Nid yw'r digwyddiad yn effeithio ar dacsis.

LLWYBRAU A SAFLEOEDD BYSIAU: Nid yw'r digwyddiad yn effeithio ar safleoedd bysiau.

Diolch am eich amser ach cydweithrediad yn ystod y cyfnod prysur hwn. Ar gyfer ymholiadau cyffredinol, cysylltwch â'r Digwyddiadau ar 07876 358074 /digwyddiadau@caerffili.gov.uk I gael diweddariadau rheolaidd am ddigwyddiadau, dilynwch Croeso Caerffili a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar Instagram, X a Facebook. I gael rhagor o wybodaeth am yr holl ddigwyddiadau, ewch i: **www.visitcaerphilly.com/cy/events**

Mae busnesau canol trefi yn cael eu hannog i gofrestru ar gyfer Cylchlythyr Busnes Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mynnwch wybod y diweddaraf am yr hyn sy'n digwydd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Ewch i: https://public.govdelivery.com/ accounts/UKCAERPHILLY/subscriber/new a thanysgrifio heddiw! Mae'r prosiectau hyn yn cael eu cyllido gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn un o golofnau canolog agenda Ffyniant Bro Llywodraeth y DU ac mae'n darparu £2.6 biliwn o gyllid i'w fuddsoddi'n lleol erbyn mis Mawrth 2025. Nod y Gronfa yw meithrin rhagor o falchder mewn lle a chynyddu cyfleoedd bywyd ledled y DU drwy fuddsoddi mewn cymunedau a lleoedd, a chynorthwyo busnesau lleol, a phobl a sgiliau. Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://www.gov.uk/government/publications/uksharedprosperity fund-prospectus #UKSPF

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Am ddiweddariadau rheolaidd ynglŷn â digwyddiadau. Dilynwch VisitCaerphilly ar X, Instagram a Facebook. visitcaerphilly

07876 358074 www.visitcaerphilly.com/cy/events #DewisLleol #UKSPF